# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Pen y Graig**

**Bryn-teg**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cyhoeddi

**28 Awst 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth.Cewch weld y Drwydded Llywodraeth Agored, ar wefan yr Archifau Cenedlaethol neu cewch ysgrifennu i'r Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Tŷ fferm dwy lawr yw Pen y Graig a leolir mewn ardal wledig ar gyrion Benllech, Sir Fôn. Mae hwn yn wasanaeth a weithredir gan deulu sy'n darparu cymorth a llety ar gyfer tri oedolyn ag anableddau dysgu. Mae'r gwasanaeth wedi enwebu unigolion cyfrifol, a'r rheolwr cofrestredig yw Karen Thomas. Roedd tri unigolyn yn preswylio yn y cartref ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### Asesiad cyffredinol

Mae Pen y Graig yn wasanaeth cartrefol sy'n darparu cartref cyfforddus ac amgylchedd sy'n galluogi pobl i fyw bywydau boddhaus. Cefnogir y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth i fyw bywydau mor annibynnol â phosib ac maent yn cael eu trin fel aelodau'r teulu.

### Gwelliannau

Cedwir dyddiaduron er mwyn hyrwyddo cyfathrebu rhwng y teulu a'r staff o ran unrhyw apwyntiadau neu anghenion gofal iechyd pobl.

### Gofynion ac argymhellion

Mae'r gwasanaeth yn bodloni’r gofynion cyfreithiol. Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn amlinellu ein hargymhellion i wella'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Nodyn i atgoffa i ddanfon hysbysiad i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) os bydd unrhyw ddigwyddiad, newid mewn statws iechyd pobl neu ddamweiniau.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae preswylwyr Pen y Graig yn cael eu trin fel rhan o'r teulu ac fe'u cefnogir fel bod ganddynt ddewisiadau dyddiol ac annibyniaeth. Mae pobl yn gallu mynychu lleoliadau gwaith ac fe'u hanogir i gael diddordebau a hobïau.

### Ein canfyddiadau

Mae gan bobl ymdeimlad o berthyn yn y cartref. Gwelsom fod preswylwyr yn cael eu trin mewn modd cynnes a chyfarwydd gan y staff. Roedd y staff yn gwybod am anghenion, hoffterau a hobïau pobl ac roeddent yn ymgysylltu'n hawdd â diddordebau pobl. Roedd pobl yn helpu o amgylch y daliad bach gan fwydo'r cŵn, ieir, hwyaid, ceffylau, moch, yr afr a'r cathod. Roedd pobl yn siarad mewn modd bywiog am yr anifeiliaid; roedd pobl wedi rhoi enw ar rai o'r anifeiliaid gan fynegi hoffter tuag atynt. Gwelsom fod pobl yn helpu'r staff i dyfu llysiau a ffrwythau ac roedd ganddynt dwnnel polythen yn yr ardd, gwnaethant ddweud wrthym am y cynhaeaf mawr o domatos y cawsant eleni. Gwelsom o'r dyddiaduron dyddiol fod pobl yn helpu i ddewis prydau ar gyfer y dydd a gwelsom bobl yn gwisgo ffedogau ac yn helpu yn y gegin, roedd y staff yn cynghori pobl am opsiynau bwyta'n iach a bwyta pum cyfran o ffrwythau a llysiau'r dydd ar gyfer iechyd da. Gwelsom bobl yn dychwelyd o leoliadau diwrnod, cawsant groeso cynnes gan y staff ac roeddent yn sgwrsio'n hapus gyda'i gilydd a'r staff. Roed pobl yn galw'r unigolyn cyfrifol yn *"Mam".*Dywedodd pobl wrthym eu bod yn hapus yn y cartref a'u bod yn teimlo eu bod yn rhan o'r teulu. Mae pobl yn elwa ar berthnasau cynnes a phriodol.

Cefnogir pobl i fod yn egnïol. Gwelsom o'r dyddiaduron dyddiol fod pobl yn ymgysylltu â llawer o hobïau sy'n eu diddori. Dywedodd unigolyn wrthym amdano'n mynd i weld ffilmiau yr oedd yn eu hoffi. Roedd person arall yn mwynhau marchogaeth ac edrych ar ôl y ceffylau. Clywsom yr unigolyn cyfrifol yn cynllunio barbeciw ar gyfer y penwythnos gyda phobl; roeddent yn edrych ymlaen ato ac roeddent yn dechrau cynllunio'r fwydlen. Roeddent hefyd yn cynllunio rhestr siopa gyda'r unigolyn cyfrifol er mwyn prynu ambarelau i'r ardd. Roedd pobl yn cael eu cefnogi i fynychu lleoliadau gwaith a dywedant wrthym eu bod yn mwynhau mynd i'r gwaith a chwrdd â ffrindiau. Gwelsom fod gan bobl gasgliad mawr o ffilmiau, cerddoriaeth, llyfrau a chyflenwadau celf a chrefft. Dywedodd unigolyn wrthym ei fod yn hoffi gwylio Cwpan y Byd ac roedd yn hoffi gwylio teledu yn y nos gyda'r teulu. Mae pobl yn gallu dewis bod mor egnïol ag y dymunant.

Mae gan bobl ddewisiadau yn eu bywyd bob dydd. Clywsom y staff yn gofyn i bobl beth oeddent eisiau ei wneud gyda'r nos a gwelsom fod gan bobl opsiynau i wneud beth roeddent yn mwynhau ei wneud. Gwelsom o'r ffeiliau cymorth fod pobl yn gallu dewis pa aelod o'r staff yr oeddent eisiau i'w cynorthwyo, h.y. roedd yn well gan rai pobl dderbyn gofal personol gan aelod o staff o'r un rhyw. Cefnogir pobl ynghylch pryd i fynd i'r gwely a phryd i godi, roedd y staff yn eu cefnogi i baratoi am y gwaith ac yn darparu lifftiau er mewn gollwng pobl cyn y gwaith a'u casglu ar ei ôl. Roedd pobl yn cymryd rhan mewn cynllunio bwydlenni ac roedd eu ffefrynnau unigol yn cael eu cynnwys yn y cynllun wythnosol. Roedd pobl yn gallu dewis treulio amser gyda'r teulu neu i gael preifatrwydd i wylio teledu yn eu hystafelloedd. Gwelsom unigolyn yn eistedd y tu allan yn yr heulwen yn gwrando ar y radio yn ôl ei ddymuniad. Gwelsom o'r ffeiliau gofal a chymorth eu bod yn cynnwys llawer o

fanylion personol ynghylch hoffterau, casbethau ac arferion dewisedig pobl. Cefnogir pobl i fod yn unigolion ac yn annibynnol.

## 2. Gofal a Chymorth

### Crynodeb

Mae iechyd pobl yn cael ei fonitro'n agos ac mae'r staff yn cyfeirio pobl at weithwyr proffesiynol mewn modd amserol. Mae pobl yn gallu cael mynediad priodol i ofal ac eiriolaeth yn ôl yr angen. Mae pobl yn cael eu cefnogi mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

### Ein canfyddiadau

Mae pobl yn derbyn y gofal cywir ar yr amser cywir. Gwelsom o'r ffeiliau gofal a chymorth fod pobl yn derbyn adolygiadau rheolaidd gan Feddyg Teulu a gellid cael mynediad i'r gwasanaeth nyrs ardal os oedd angen. Gwelsom fod person ag anawsterau llyncu wedi cael ei weld gan y dietegydd a’r therapydd lleferydd ac iaith. Roedd y staff yn cofnodi cyngor gweithwyr proffesiynol yn ofalus ac yn dilyn y canllawiau diet meddal. Mae pobl yn cael eu cefnogi i gynnal eu hiechyd.

Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion eiriolaeth. Dywedodd staff wrthym am drefniadau eiriolaeth a gafwyd trwy’r Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwelsom o'r ffeiliau gofal a chymorth fod manylion eiriolaeth ar waith. Roedd gan bob unigolyn siarter hawliau o fewn eu ffeiliau gofal. Mae hawliau pobl yn cael eu gwarchod o fewn y cartref.

Mae cynlluniau cymorth pobl yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwelsom fod y ffeiliau cymorth yn fanwl ac yn lliwgar. Gwnaeth y staff ddangos bod pobl yn bartneriaid yn eu gofal gan fod dogfennau megis *"Fy Stori"* a *"Pethau sydd angen i chi wybod i’m cefnogi"* wedi'u llenwi â llawer o fanylion personol am yr unigolyn. Roedd rhestr o bobl sy'n bwysig i'r unigolyn a'u manylion cyswllt wedi'u cynnwys yn y ffeiliau hefyd. Roedd proffil un dudalen a chrynodeb o hanes ac anghenion yr unigolyn â ffotograff hefyd yn y ffeiliau. Roedd ddiagnosis ac anghenion meddyginiaeth pobl hefyd yn cael eu dogfennu'n dda gyda chyfarwyddiadau manwl megis rheolaeth trawiadau. Roedd cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd fel yr oedd yr asesiadau iechyd a diogelwch. Mae pobl yn ganolog i'w cynllun gofal a chymorth.

## 3. Yr Amgylchedd

Nid ydym yn gwneud sylwadau ar gartrefi pobl eu hunain, ond, cawsom ein gwahodd i edrych ar ystafelloedd gwely pobl a gwelsom eu bod yn addas at y diben.

**Ein canfyddiadau**

Nid ydym yn arolygu cartrefi pobl eu hunain. Cawsom ein gwahodd i edrych ar ystafelloedd pobl a gwelsom eu bod wedi eu personoli at chwaeth yr unigolyn. Gwelsom fod gan bobl deledu a radio a llawer o lyfrau, ffilmiau, a chyflenwadau celf a hobi er mwyn cadw pobl wedi'u hysgogi. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn hoffi eu hystafelloedd a bod ganddynt bopeth yr oeddent eu hangen ynddynt. Dangosodd y rheolwr y ffenestri a'r drysau yn yr adeilad a ddefnyddir petai angen dianc yn achos tân neu argyfwng. Mae pobl yn derbyn gofal yn ddiogel ac maent yn hapus ar eu hamgylchedd.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddarparu gofal cartrefol sy'n cynorthwyo unigolion i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r staff yn cael eu cefnogi, eu hyfforddi a'u goruchwylio'n dda.

### Ein canfyddiadau

Mae'r staff wedi'u hyfforddi'n dda. Gwelsom y gallai'r staff gael mynediad at hyfforddiant gorfodol a chyrsiau mewn pynciau sydd o ddiddordeb i'w helpu â'u gwaith dyddiol. Dywedodd aelod o'r staff wrthym fod yr hyfforddiant yn cael ei gynnal ar-lein a thrwy fynychu digwyddiadau lleol. Roedd aelod o'r staff yn mynychu cwrs Cymraeg er mwyn darparu 'cynnig gweithredol' y Gymraeg i bobl. Gwelsom fod tystysgrifau hyfforddi'r staff yn eu ffeiliau a oedd yn cwmpasu pynciau megis diogelwch bwyd, cymorth cyntaf, ymwybyddiaeth o epilepsi a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol er mwyn sicrhau bod arferion yn gyfredol. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant digonol ar gyfer eu rolau dyddiol.

Mae'r staff yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gweithio'n dda fel teulu, gan gynorthwyo ei gilydd a darparu cyflenwad. Gwelsom o ffeiliau'r staff fod y staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd a'u bod yn cael arfarniad blynyddol. Roedd yr unigolyn cyfrifol wedi rhoi arfarniad blynyddol a goruchwyliaeth gyson i'r rheolwr er mwyn darparu cefnogaeth ar gyfer ei rôl. Mae'r teulu a'r staff yn cefnogi'i gilydd ac yn darparu goruchwyliaeth.

Mae'r gwasanaeth yn cadw gwaith papur sy'n briodol i’r gwasanaeth cofrestredig. Gwelsom fod ffeiliau'r staff yn gyflawn ac yn fanwl; fodd bynnag, roedd un gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi mynd yn hen. Dangoswyd codau olrhain ar gyfer y cais newydd ond roedd yn araf yn dod nôl. Cawsom ein sicrhau y byddem yn cael gwybod cyn gynted ag y byddai gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau. Gwelsom fod gwiriadau tân yn cael eu cynnal yn wythnosol a bod tystysgrifau yswiriant ar waith. Gwelsom nifer o asesiadau risg iechyd a diogelwch i sicrhau diogelwch pobl megis defnydd tân a'r system gwresogi. Dangoswyd y canllaw datganiad o ddiben i ni a oedd wedi'i ddiweddaru er mwyn cydymffurfio â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA). Gwnaethom atgoffa'r unigolyn cyfrifol y byddai angen i'r datganiad o ddiben fod yn fanwl er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA). Gwnaethom atgoffa'r rheolwr i ddanfon unrhyw hysbysiadau trwy'r system RISCA ar ôl i’r gwasanaeth gael ei gofrestru ac i'n hysbysu o bethau megis cwympiadau, damweiniau neu ddigwyddiadau. Mae'r gwasanaeth yn cadw cofnodion priodol.

## 5. Gwelliannau mae eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom atgoffa'r person cofrestredig i hysbysu AGC petai unrhyw ddamweiniau, digwyddiadau, neu newidiadau yn statws iechyd pobl. Gwnaethom gynghori'r personau cofrestredig i ddilyn canllawiau AGC ynghylch y datganiad o ddiben er mwyn sicrhau ei addasrwydd ar gyfer cofrestriad RISCA.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o’n rhaglen arolygu. Gwnaethom ymweld â'r cartref ar 4 Gorffennaf 2018 rhwng 4pm a 7pm.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom siarad â thri o breswylwyr, aelod o'r staff, y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol.
- Cawsom wahoddiad i weld ystafelloedd pobl.
- Gwnaethom edrych ar dair ffeil gofal a chymorth a dyddiaduron gweithgareddau dyddiol.
- Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff, cofnodion hyfforddiant a goruchwyliaeth ar gyfer yr holl staff.
- Gwnaethom edrych ar amrediad o gofnodion a gedwir gan y gwasanaeth cofrestredig gan ganolbwyntio ar y dystysgrif yswiriant, gwiriadau tân wythnosol, gwiriadau'r blwch cymorth cyntaf, y ffeil cynnal a chadw, a gwybodaeth iechyd a diogelwch.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Cartref Gofal i Oedolion – Iau** |
| **Personau Cofrestredig** | **Henry Roberts**<br><br>**Susan Roberts** |
| **Rheolwr Cofrestredig** | **Karen Thomas** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **3** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **5 Ionawr 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **4 Gorffennaf 2018.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy iaith** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Ydy.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |